Cofnodion llawn  o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr Hydref 5ed 2023

Yn brsennol yn y  cyfarfod.

Annwen Hughes, Helen Johns, Eirwyn Thomas, Gwynfor Owen, Robin Ward, John Evans.

Ymddiheuriadau

Kevin Titley, Luise Vassey, Nia Jones.

Dim ceisiadau cynllunio.

Datgan buddiant – wrth drafod cais y Neuadd am gyfraniad tuag at panel solar. Pasiwyd I gefnogi mewn egwyddor ond angen mwy o wybodaeth.  Bu I  Jones roi cyflwyniad dros zoom. Mae eisioes wedi holi am brisiau, holi Perc Cenedlaethol hefyd parthed cais cynllunio.  Nidy w wedi cael adroddiad gan syrfeiwr ar y to.

Llwyddiant I 2 o ferched ifanc yr ardal.  Lowrie Howie Pencampwraig Cymru dan 14 a Phencampwraig Prydain dan 14 2023. Camp scio.  Yna hefyd I Nansi, Cae Nest, hithau a'I cheffyl wedi cyrraedd Horse of the Year yn Birmingham.  Da iawn iddynt.

Adroddiad cyllid – y cyfrfifon am 2022/23 wedi cael eu cymeradwuo gan yr Archwilydd allanol. Byddent ar y we gyda hyn.

Yn codi y mater – bod yn rhaid I'r Archwilydd Mewnol eu cymeradwyuo cyn I'r Cadeirydd, Clerc a'r Cyngor wneud hynny.

Yn y banc diwedd Medi £30439.25

Angen talu y canlynol ym mis Hydref Cyflog Clerc etc £1196.45

HMRC payee  £133.40

Will Hooban – cae chwarae £250

Delyth Williams – wefan £32

Accounts  £60

Agor Bedd £ 440.00

Wedi derbyn presept £ 10,000 diwedd Awst

Hefyd ad daliad £90 TAW yn ol gan M. Evans (torri llwybr 2023)

Ad Daliad TAW 2022/23 £1045.17

Materion yn codi

- Gwaith ar wal rhwng Ardudwy a llwybr y fynwent – Gwaith yn mis Rhagfyr.
- Llwybrau – rhai wedi eu gwneud
- Angen archwiliad offer cae chwarae ar gost o £328.80. Pasiwyd bod yn rhaid gneud hyn.
- Angen cael pris am docio y gwrych cae chwarae. Trio am 2 bris os dros £500
- Huchenfeld – Cafwyd cyfarfod zoom mis medi. Nododd HJ bod yr arian yn y cyfrif ar gyfer rhannu teithiau ieuenctid.  Dal I ddisgwyl y llyfr resetiau mewn 3 iaith. Gwaith pwytho yn y
- 

Neuadd angen ei drwshio. Bydda modd defnyddio arian wrth gefn ar gyfer hyn? (£374.96 neu ei neilltuo ar gyfer y flwyddyn nesaf).

- Sul y Cofio – yr un trefniadau a llynedd. ATC wedi cadarnhau y byddant yn cymerud rhan. Annwen Hughes am ddarllen y darn beiblaidd yn y gymraeg
- Toiledau – un o'r toiledau merched yn dal ar gau. AH am holi parthed hyn.
- Angen arwyddion "toiledau" a arwydd Neuadd Gymdeithasol yn y pentref. Rhoi post cod y Neuadd ar y wefan?
- Bu cynrychiolaeth o'r Cyngor ar bwyllgor HAL yn ddiweddar.
- Cafwyd rai esboniadau parthed cyflogau.
- Wal ddringo ar gau oherwydd y to wedi chwalu.
- Caffi hefyd mond yn gwneud paneidia, Dim digon o staff
- Y Cyngor wedi pasio I gyfrannu fesul mis hyd at ddiwedd Mawrth!
- **Materion Eraill**
- Arwyddion man pasio ffordd Cypla – hyn yn derbyn sylw.
- Posibilrwydd o gael llinellau melyn ger mynedfa rhwng y Wenallt a Hen Becws.
- Rhiw Garth Goch a Ffordd Cwm Nantcol – tyllog. Yn derbyn sylw y Peiriannydd Ardal ac yr Arolygwr Ffordd I'r mater, gan edrych pa ddiffygion sydd wedi eu adnabod ac o s oes gwaith yn yr arfaeth.
- Dal I drio am fin baw cwn ger yr Orsaf dren. Yn Dilyn I fyny gyda'r rheolwr gwasanaeth edrychiad stryd gan ofyn iddo gysylltu yn uniongyrchol I'n diweddaru am y cais.
- Boncyff coeden bron a chwalu clawdd ochr uchaf I'r gof golofn. Hysbysu Cyngor Gwynedd.
- Cafwyd pwyllgor parthed gwelliannau Llanbedr a'r holiadur . Heb dderbyn cadarnhad ffurfiol o ganlyniad yr holiadur hyd yma. Nifer wedi ymateb 283. Ydi hwn yn rhesymol o ffigwr? Pwy ddaru ei lenwi, ar lein yn unig a nifer yn methu cymerud rhan. Felly ddim yn deg iawn.
- Nodwyd bod 27 tir feddiannwr wedi llenwi yr holiadur.
- Amheuaeth a yw'r £300000 ar gyfer Llanbedr neu I rannu a Coridor Gwyrdd Ardudwy. Nododd JT mae ar gyfer Llanbedr mae hwn. Cadarnhad gan y Llywodraeth o hyn.!!
- Gobeithio y cawn gwmni Y Swyddog Prosiect yn fuan ar gyfer cerdded y pentref er mwyn gweld a phrofi'r broblem diogelwch yma yn Llanbedr.
- **Adroddiadau Cynghorwyr Sir**

CYng. Gwynfor Owen yn nodi llwyddiant yr Wyl Gwrw, ac yn glod I'r Pwyllgor.Wedi mynychu pwyllgor Magnox lle bu Sion Richards yn rhoi cyflwyniad ar bwysigrwydd Traws I'r iaith a'r economi

Gwasanaeth Tan – yn edrych ar 15% o godiad y neu cyllideb.

Nid oedd GO yn cael cymerud rhan yn y Pwyllgor am autism. Datgan diddordeb.

Annwen Hughes wedi derbyn cwynion parthed 20 mya. A pham bod ffordd I mewn o Dyffryn ger Cambrian Clearance yn 30 mya.

Materion Eraill

Cadarnhau bod £400 tuag at y ffair nadolig – goleuo Llanbedr. Dim dyddiad hyd yma.

Nododd JT y byddai'n hoffi gweld trefniadau Calan Gaea far gyfer y plant y flwyddyn nesaf.